



Drwy e-bost: [adrian.jones@northwaleswildlifetrust.org.uk](mailto:adrian.jones@northwaleswildlifetrust.org.uk)

Ein Cyf / Our Ref: AW/Is  
Eich Cyf / Your Ref: 27.06.2025  
Dyddiad / Date: 09 Gorffennaf, 2025

Annwyl Mr Jones,

**YNGLŶN Â: Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru**

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 27 Mehefin 2025, yr ydych yn ei ddisgrifio fel gwrthwynebiad atodol i'ch cyflwyniad ymgynghori ar Gynllun drafft Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Rydym wedi ystyried eich gohebiaeth yn ofalus, yn enwedig eich barn y dylid tynnu'r Cynllun drafft oddi ar raglen cyfarfod 30 Mehefin 2025 o Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol CBC y Gogledd (a'i ailgyflwyno mewn cyfarfod dilynol). Fel y gofynnwyd, fe wnaethom ddarparu adroddiad llafar ar gynnwys eich gohebiaeth yn yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, ac roeddem wedi cylchredeg copïau ohono ymlaen llaw i aelodau a swyddogion y cyfarfod. Er ein bod wedi darparu ymateb amlinellol i gynnwys eich gwrthwynebiad yn ystod y cyfarfod, teimlwn ei bod yn bwysig ymateb i'ch llythyr yn llawn ac yn ysgrifenedig. Mae gweddill yr ymateb hwn yn darparu ein safbwynt mewn perthynas â'ch tair sail gwrthwynebu yn eu tro.

Ni chefnogwyd eich barn y dylid tynnu'r eitem ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft (RTP) oddi ar y rhaglen, ac amlinellir y rhesymau yn y tair sail a godwyd gennych isod.

**Sail 1 (nad oedd papurau ar gyfer y cyfarfod wedi'u rhyddhau i ddarparu digon o amser ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus)**

Mae'r is-bwyllgor yn gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac felly nid yw'n fforwm gwneud penderfyniadau. Gofynnwyd i'r is-bwyllgor argymhell i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y dylid cyflwyno'r RTP drafft i Lywodraeth Cymru. Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cyfarfod ar 18 Gorffennaf, gyda chymeradwyaeth wedi'i gadw i Weinidog Cymru. Mae'r RTP yn uchelgeisiol yn nodi angen trafnidiaeth ledled y rhanbarth a datblygu polisiau i gefnogi datrysiadau. Nid yw'r Cynllun yn arwydd o gefnogaeth gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig i unrhyw gynllun penodol.

Mae aelodau'r is-bwyllgor a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cael cyfranogiad helaeth yn natblygiad yr RTP drafft a'r broses ymgynghori gyda mynediad i'r holl ddogfennaeth berthnasol a briffio rheolaidd. Mae'n fater i bob Awdurdod, ond mae'r CBC yn ymwybodol y gallai rhai Awdurdodau hefyd fod wedi dilyn y mater trwy eu trefniadau Gweithredol eu hunain.

Er y derbynnir bod y ddogfennaeth gyhoeddedig yn swmpus nid yw ei gynnwys yn newydd i'r Aelodau, ac fel y cynghorwyd, cadwyd at y cyfnod cyhoeddi statudol o dri diwrnod gwaith clir.

**Sail 2 (na ddylai Atodiad 6 o'r rhaglen fod wedi cael ei olygu)**

Eich barn chi yw y dylai'r eitem fod wedi cael ei dileu oherwydd eich gwrthwynebiad i absenoldeb Atodiad 6 o'r rhaglen, yr ydych yn awgrymu ei fod yn "honni ei fod yn ystyriaeth fanwl o'n gwrthwynebiad gan Arup." Ystyriwn efallai eich bod wedi drysu rhwng Atodiad 6 yr Adroddiad



Ymgynghori gydag Atodiad 6 o'r Rhaglen. Er eglurder, nid yw Atodiad 6 o'r Adroddiad Ymgynghori wedi'i olygu ac mae wedi'i baratoi i helpu i ddangos sut cafodd adborth i'r ymgynghoriad ei ystyried. Tra bod Atodiad 6 o'r rhaglen yn ddogfen eithriedig, sy'n ymwneud â Chynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol Atodiad B2 [Offeryn Rhyngweithiol] Persbectif Cyflawni Awdurdodau Lleol. Fel yr eglurir yng ngwybodaeth y rhaglen: "Mae diddordeb cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored mewn perthynas â'r defnydd o adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir hefyd bod achlysuron, er mwyn diogelu buddiannau ariannol awdurdodau cyhoeddus, lle mae angen trafod materion sy'n ymwneud â gwybodaeth fasnachol heb iddynt gael eu cyhoeddi. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r canlyniad cyffredinol gorau. Mae'r elfennau sydd wedi'u golygu yn cynrychioli ymateb cymesur i'r cais hwn tra'n cadw hawl y cyhoeddiad i gael gwybodaeth am gynllun rhanbarthol pwysig, yn unol â Pharagraff 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972."

Er eglurder, nid yw'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i atodiadau yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i Goridor Sir y Fflint A55/A494/A548. Fel y manylir yn y Canllawiau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (2023): "Ar gyfer pob ymyrraeth lefel uchel a nodwyd yn yr RTP, dylai'r RTDP nodi'r cynlluniau penodol a gynigir i'w cyflawni. Dylai'r rhain gynnwys cynigion ar gyfer cynlluniau sydd o fewn cylch gwaith awdurdod lleol yn unig ac ni ddylent, er enghraifft, gynnwys cynlluniau sy'n ymwneud â'r rhwydwaith rheilffyrdd neu gefnffyrdd."

Sail 3 (bod yr adroddiad ymgynghori yn cynnwys gwall ffeithiol yn ei gyfeiriad at gynlluniau priffyrdd a archwiliwyd fel rhan o broses Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru)

Yn gyntaf, rydym o'r farn ei bod yn bwysig darparu'r cyd-destun ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gan gynnwys dyheadau ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN). Mae nifer ohonom yn dibynnu ar ein ffyrdd A i fynd o le i le. Mae'r rhwydwaith cefnffyrdd yn ein rhanbarth yn cynnwys yr A5, A55, A458, A470, A483, A487, A489, A494, a'r A550. Mae'r SRN yn darparu'r priffyrdd economaidd ar gyfer Gogledd Cymru ac maent yn gyswllt pwysig i drefi a chymunedau lleol. Mae'r SRN yng Ngogledd Cymru yn cael ei reoli a'i gynnal gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu nad oes gan y CBC ac awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar yr SRN. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi opsiynau i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ar yr SRN ac yn tynnu sylw at ddyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau cysylltedd ehangach ar gyfer Gogledd Cymru. Felly, rydym wedi ymgysylltu â'r Asiant Cefnffyrdd a Llywodraeth Cymru i helpu i ddeall eu blaenoriaethau a'u cynlluniau, i lywio 'dyheadau rhwydwaith ffyrdd strategol' y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan gynnwys rhaglenni cynnal a chadw priffyrdd, prosiectau gwella capasiti a diogelwch ar draws ac yn cysylltu Gogledd Cymru. Rydym wedi cyflwyno dyheadau SRN ac nid polisïau SRN, oherwydd nid oes gan y CBC ddylanwad uniongyrchol ar yr SRN.

Roedd eich cyflwyniad ymgynghori i'r ymgynghoriad drafft ar y Cynllun yn canolbwyntio ar wrthwynebiad i gynnwys Gwelliannau Coridor Sir y Fflint A55/A494/A548. Fodd bynnag, mae'r Cynllun drafft yn ei Ddyhead SRN 3, yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn adolygu'r achos dros gynlluniau priffyrdd strategol lle gall y rhain ddarparu manteision ehangach a gwella cyfleusterau ar gyfer teithio cynaliadwy (gan nodi mai'r llwybrau blaenoriaeth yw'r A494/A55/Coridor Sir y Fflint a'r A483 Wrecsam). Nid yw'r Cynllun drafft yn ceisio cefnogi unrhyw gynllun a gynigiwyd yn flaenorol, ond mae'n cefnogi datrysiad cynaliadwy i'r problemau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth fel y disgrifir yn y Cynllun drafft. Llywodraeth Cymru sydd â'r cyfrifoldeb am unrhyw opsiynu, asesiad amgylcheddol, cydsynio a chyflawni unrhyw gynllun SRN.

Yn ystod ac ers yr ymgynghoriad, rydym wedi parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar faterion mewn cysylltiad â'r SRN. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod y fersiwn ddiweddaraf o'r Cynllun drafft, fel y cyflwynwyd yn yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, yn egluro eu safbwynt diweddaraf. Hynny yw, yn gryno, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad yw Gwelliannau Coridor Sir y Fflint A55/A494/A548 yn bwrw ymlaen ar hyn o bryd a bydd yn comisiynu Strategaeth Llwybr i ystyried ymyriadau posibl i'r heriau a'r materion a nodwyd ar hyd y coridor.

Yn eich gwrthwynebiad atodol, rydych yn awgrymu na chafodd y cynlluniau priffyrdd a archwiliwyd fel rhan o broses Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru "eu 'hoedi' yn agored; cawsant eu canslo", gan gynnwys dolen a chiplun o wefan prosiect Llywodraeth Cymru ar gyfer yr A55 A494 A548: Coridor Sir y Fflint. Nid yw gwefan Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r naill derm, yn hytrach mae'n nodi "Yn dilyn argymhellion yr adolygiad, ni fyddwn yn mynd ymlaen â gwelliannau arfaethedig i goridor Sir y Fflint A55/A494 A548." Yna, mae'n esbonio'r 'cefnidir' ac yn nodi manylion y 'cynlluniau blaenorol sydd wedi'u cynnwys'. Cyn ymgynghoriad drafft y Cynllun, fe wnaethom ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â drafftio'r dyhead perthnasol 'Dyhead SRN 3'. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru eu bod yn fodlon â'r derminoleg fel y'i defnyddiwyd bryd hynny. P'un a gafodd ei 'oedi' neu ei 'ganslo', y gwir amdani yw mai penderfyniad Llywodraeth Cymru yw p'un ai i fwrw ymlaen ag unrhyw welliannau arfaethedig i goridor Sir y Fflint A55/A494 A548. Felly, rydym yn fodlon nad yw'r adroddiad ymgynghori yn cynnwys gwall ffeithiol, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi tynnu'r eitem oddi ar y rhaglen.

Ar ôl ystyried y drafodaeth a'r argymhellion a wnaed yn ystod yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, rydym yn bwriadu gwneud diwygiad pellach i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Nodir y newid isod, gyda'r diwygiadau wedi'u dangos mewn testun gyda llinell drwyddo a thestun wedi'i danlinellu. Mae hyn yn ceisio egluro, cyn belled â phosibl, Dyhead SRN 3 y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a statws y gwaith datblygu perthnasol sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru.

*"Dyhead SRN 3: Dylid adolygu'r achos dros gyflawni cynlluniau priffyrdd strategol ~~dewisol wedi'u hoedi~~, yn enwedig lle gall y rhain ddarparu manteision ehangach a gwella cyfleusterau ar gyfer teithio cynaliadwy. Y llwybrau â blaenoriaeth yw'r A494/A55/Coridor Sir y Fflint a'r A483 Wrecsam.*

*Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad yw'r cynlluniau blaenorol ar gyfer Gwelliannau Coridor Sir y Fflint A55/A494/A548 yn bwrw ymlaen ~~ar hyn o bryd~~ yn dilyn argymhellion yr Adolygiad Ffyrdd ac mae ar hyn o bryd yn y broses o gomisiynu gwaith newydd i ddatblygu Strategaeth Llwybr ar gyfer yr A55/A494 a fydd yn nodi'r heriau a'r problemau ar hyd y coridor ynghyd ag ymyriadau posibl i fynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ei bod wedi comisiynu astudiaeth (Camau 1 a 2 WelTAG) i ystyried heriau gweithredol y rhwydwaith, gwytnwch a diogelwch ffyrdd rhwng Cyffordd 14 ac 18 ar yr A55".*

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn wedi bod o gymorth, ac os oes gennych unrhyw bryderon pellach, rwy'n hyderus y gallwn barhau i gael deialog gynnar ac agored i gefnogi dealltwriaeth.

Yn gywir,

*Alwen Williams*

Alwen Williams  
Prif Weithredwr